Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol Ac Adfywio

SJR-11-05 (p.10)

Dyddiad:	Dydd Mercher 6 Gorffennaf 2005
Amser:	9.30am tan 12.30pm
Lleoliad:	Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr Adolygiad Polisi ar Gamddefnyddio Sylweddau – Cam 2

Diben

1. Mae'r papur hwn yn hysbysu'r Pwyllgor ynghylch cam nesaf yr adolygiad polisi ar gamddefnyddio sylweddau.

Cefndir

2. Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2005, cytunodd yr Aelodau y dylid canolbwyntio ar ddau faes ar gyfer ail gam yr adolygiad polisi ar gamddefnyddio sylweddau. Yn ystod cam cyntaf yr adolygiad, amlygwyd y ddau faes fel rhai o ddiddordeb arbennig, sef:

- Y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- Rôl y meddygon teulu a'r nyrsys gofal sylfaenol wrth ddarparu triniaethau camddefnyddio sylweddau, a chyfeirio pobl at y gwasanaethau hynny.

3. Mae'r atodiad amgaeedig yn rhestru'r prif faterion sydd wedi dod i'r amlwg, a'r fethodoleg i'w defnyddio ar gyfer rhan nesaf yr adolygiad.

Argymhelliad

4. Bod y Pwyllgor yn nodi'r papur.

Janice Gregory AC

Cadeirydd y Pwyllgor